Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol

Asesiad o Anghenion Ardal Leol **2021-22**

DE WRECSAM



GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE



CYNNWYS

RHAGARWEINIAD 3

WRECSAM FEL PENTREF O 100 O BOBL

EIN POBLOGAETH.....4-7

YN EIN PENTREF 8-9

YNGHYLCH DE WRECSAM 10-11

BYWYD YN NE WRECSAM 12-13

IECHYD CORFFOROL POBL YN NE WRECSAM 14

Y SBOTOLAU AR DDE WRECSAM.....15

IECHYD MEDDWL POBL YN NE WRECSAM 16-17

BYW Â CHYFLWR HIRDYMOR YN NE WRECSAM 18-19

CYFRANOGIAD POBL GYDA GWASANAETHAU IECHYD A GOFAL YN NE WRECSAM.....20-21

PROFIADAU POBL IECHYD A GWASANAETHAU GOFAL YN YN NE WRECSAM 22

PROFFILIAU'R ARDAL LEOL: RHESTR O'R FFYNONELLAU DATA.....23-26

RHAGARWEINIAD

Mae Proffiliau Ardal Leol wedi cael eu datblygu fel rhan o Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gyda'r bwriad o gefnogi datblygiad cynllunio strategol yn seiliedig ar leoedd a chomisiynu ar gyfer iechyd a gofal ar draws y rhanbarth.

Mae Proffil wedi cael ei ddatblygu ar gyfer pob un o'r **14 ardal iechyd a gofal cymdeithasol leol integredig** yng Ngogledd Cymru. Diffinnir ardal leol fe

"Ardal ddaearyddol, sy'n dod ynghyd â holl wasanaethau lleol sy'n rhan o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer yr ardal. Mae ardal leol yn gwasanaethu poblogaeth o rhwng 25 a 100,000 o bobl."

Mae ein hardaloedd lleol yn seiliedig yn bennaf ar ffiniau clwstwr meddyg teulu.

Mae Proffiliau Ardal Leol yn dod a data a mewnwelediad ynghyd gan asiantaethau gwahanol er mwyn adeiladu darlun cyflawn o anghenion a chryfderau cymunedau gwahanol ar lefel leol, ronynnol. Mae'r mewnwelediad hyn yn cael ei ddefnyddio i siapio blaenoriaethau ar gyfer y lleoliad ac yn mynegi uchelgais cytunedig, cyfun i iechyd a gofal pobl leol a'r gwasanaethau maent yn eu derbyn.

Bydd y data hefyd yn cael ei ddefnyddio yn barhaus er mwyn addasu blaenoriaethau a galluogi partneriaid i ddwyn ei gilydd i gyfrif ar gyfer darparu eu huchelgeisiau.

Mae'r Proffiliau Ardal Leol a ddatblygwyd gan y Rhaglen Drawsnewid Gwasanaethau Cymunedol yn waith sy'n dal i gael ei ddatblygu, a bydd yn parhau i addasu a thyfu wrth i'r ystod a math o wybodaeth sydd ar gael ar ôl troed lleol, gronynnol, gynyddu. Er hynny, maent yn cynrychioli cam sylweddol i wireddu ein huchelgais cyfunol i gynllunio a darparu gofal a chymorth mewn ymateb i anghenion ein cymunedau lleol.

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

WRECSAM
FEL PENTREF O 100 O BOBL

EIN POBLOGAETH

Yn ein pentref...

OEDRAN



19
person rhwng
0 ac 15
mlwydd oed



135,957
yw poblogaeth ein preswylwyr fel arfer yn **WRECSAM** yn 2019, yn ein pentref o 100, mae pob unigolyn yn cynrychioli **1,359 o bobl**

65 mlwydd oed a hŷn
Gynyddu
20
MLYNEDD NESAF

Disgwylir i'r nifer o bobl dros 65 oed gynyddu dros yr 20 mlynedd nesaf



20
person
65 mlwydd oed a hŷn

13
65 mlwydd oed a hŷn
yn byw ar eu pen eu hunain

IECHYD A LLES

Iechyd da

75
Oedolyn mewn iechyd da





57
Oedolyn hŷn mewn iechyd da



7 Oedolyn ddim yn gallu rheoli o leiaf un gweithgaredd hunan-ofa

Defnyddio Gwasanaeth



6 Oedolyn yn derbyn gwasanaeth gan ofal cymdeithasol



O'r rheiny, mae **5** ohonynt yn 65 oed

WRECSAM
FEL PENTREF O 100 O BOBL

EIN POBLOGAETH

Yn ein pentref...



IAITH

14
Yn siarad Cymraeg



ETHNIGRWYDD

2 Person o grŵp lleiafrifoedd ethnig

PENDERFYNYDDION EHANGACH IECHYD

Tlodi plant

O'r 100 o blant yn ein pentref...

22
yn byw mewn tlodi




Ymdeimlad o gymuned

49 Oedolyn yn teimlo'n rhan o'u cymuned

Diweithdra

26
Oedolyn yn ddi-waith



Unigrwydd

15
Oedolyn yn teimlo'n unig



YMDDYGIAD FFORDD O FYW

Pwysau iach

39
Oedolyn o bwysau iach

69
O blant o bwysau iach

Gweithgarwch corfforol

29
Oedolyn yn anweithgar yn gorfforol



Maeth

20
Oedolyn yn bwyta 5 dogn o ffrwythau a llysiau'r dydd

Ysmygu

20
Oedolyn yn ysmygu

Alcohol

22
Yn yfed dros y canllawiau argymelledig

IECHYD MEDDWL AC ANABLEDD

Iechyd meddwl

3
Oedolyn yn derbyn cefnogaeth gyda'u iechyd meddwl



Anabledd dysgu

1
Person wedi cofrestru anabledd dysgu

DE WRECSAM
FEL PENTREF O 100 O BOBL



Yn ein pentref...

IECHYD A LLES

3
Person â Ffibrilio Atrïaidd

0
Person ag osteoporosis

4
Person â Chlefyd Coronaidd y Galon

1
Person ag arthritis gwynegol

1
Person â methiant y galon

3
person â chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint

17
Person â phwysedd gwaed uchel

8
person ag asthma



7
Person â diabetes

2
Person wedi cael strôc

11
person dros eu pwysau


1
Person ag epilepsi

0
Person yn derbyn gofal lliniarol

1
Person â dementia


3
Person â chanser

1
Person wedi derbyn cefnogaeth ar gyfer eu hiechyd meddwl




YNGHYLCH DE WRECSAM

O'r 135,957 o bobl sy'n byw yn Wrecsam, mae oddeutu 53,257 yn byw yn NE WRECSAM. Mae DE WRECSAM yn rhannu ei ffin gyda Swydd Amwythig a Swydd Gaer, ac yn lled-wledig yn bennaf.



Y bobl....

Mae disgwyl i % poblogaeth Gogledd Cymru gynyddu o 6.7% rhwng 2011 a 2036. Bydd pob Awdurdod Lleol, gan gynnwys **WRECSAM** yn gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n 85 oed neu'n hŷn.




6.7%
Poblogaeth Gogledd Cymru
Gynyddu
NESAF 25 MLYNEDD

Mae 53,250 o bobl ar restrau meddygon teulu DE WRECSAM

53,250

Nifer uchaf



Ardal y Dwyrain sydd â'r nifer uchaf o breswylwyr a'r boblogaeth ieuengaf yn rhanbarth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

82,376

o'r bobl sy'n byw yn **WRECSAM** rhwng 16 a 64 oed.



2.2%

o bobl yn **WRECSAM** o gymuned Ddu, Asiaidd neu gymuned ethnig leiafrifol

14%

o oedolion yn **WRECSAM** yn siarad Cymraeg. Mae hyn yn llai na'r cyfartaledd yng Nghymru (18%) a chyfartaledd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (33%)



1%

o oedolion yn **WRECSAM** yn nodi eu hunain fel LHD


MAE DE WRECSAM YN CYNNWYS Y WARDIAU ETHOLIADOL CANLYNOL...

Dyffryn Ceiriog, Gogledd y Waun, De'r Waun, Bronington, Owrtyn, Marchwiail, Llangollen Wledig, Cefn, Johnstown, Plas Madoc, Pen-y-Cae; Pen-y-Cae a De Rhiwabon, Ponciau, Rhiwabon

Ei hasedau...

Mae ystod o asedau pwysig yn yr ardal leol sydd nid yn unig yn helpu i ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol, ond sydd hefyd yn cefnogi iechyd a lles y boblogaeth gyfan.

Yn NE WRECSAM, mae...



BYWYD YN NE WRECSAM

Mae cysylltiad pwysig rhwng iechyd ac addysg, mae iechyd a lles da yn gysylltiedig â phresenoldeb a chyrhaeddiad gwell yn yr ysgol, sydd yn y pen draw, yn arwain at gyfleoedd cyflogaeth gwell a rhagor o opsiynau o ran gyrfa.

Erbyn iddynt droi'n 30 oed, mae disgwyl i'r rheiny sydd wedi derbyn lefel uchel o addysg fyw am bedair blynedd yn hirach na'r rheiny sydd wedi derbyn addysg ar lefel is. Addysg yw'r penderfynydd cymdeithasol addasadwy pwysicaf o ran iechyd, mae'n rymusol ac yn amddiffynnol, mae'n gallu sbarduno dyfodol iachach, lliniaru pwysau cymdeithasol a darparu mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a chyfleoedd bywyd a allai amddiffyn unigolion rhag anfanteision yn hwyrach yn eu bywydau.

73.7%

Canran yr oedolion sydd mewn cyflogaeth yn **WRECSAM** yw 73.7%, sy'n is na chyfartaledd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (75.3) ac yn cyd-fynd â'r cyfartaledd yng Nghymru (73.8)





5 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is **WRECSAM** yn y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran mynediad at wasanaethau, gyda chyfanswm poblogaeth o tua 8,000 o bobl



22%

o blant yn **WRECSAM** yn byw mewn tlodi – mae hyn yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru



22.2%

o aelwydydd yn WRECSAM heb gar neu fan. Mae hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (20.3%). Mae diffyg mynediad at gar neu fan yn cael effaith ar argaeledd gwasanaethau i'r rheiny heb gludiant personol.

Amcangyfrifir bod 12,597 o bobl yn byw mewn tlodi tanwydd yn WRECSAM

Mae ansawdd tai cyffredinol WRECSAM yn uchel

Er bod ansawdd tai yn **WRECSAM** yn dda, **WRECSAM** sydd â'r trydydd nifer uchaf o aelwydydd sy'n anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol fesul 10,000 o'r boblogaeth (16.5). Mae dros 14% o boblogaeth **DE WRECSAM** yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae hyn yn cynnwys yr ardaloedd canlynol yn **NE WRECSAM**: Owrtyn, Bronington, Dyffryn Ceiriog, a Marchwiail.

4.81%

o oedolion yn **WRECSAM** wedi profi newyn gan nad oedd ganddynt ddigon o fwyd

11.64%

o oedolion yn **WRECSAM** yn poeni am beidio â chael digon i'w fwyta.

81%

o bobl yn **WRECSAM** yn teimlo eu bod yn byw mewn cartref sy'n cefnogi eu lles yn y ffordd orau

Mae llai o aelwydydd ag un pensiynwr yn **WRECSAM** o'i gymharu â chyfartaledd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chymru

ASESIADAU **TAI**

Mae % yr asesiadau tai nad ydynt wedi nodi unrhyw beryglon categori un yn **WRECSAM** (82.7%) yn llawer uwch yn ystadegol o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru (68.7%)

11.79%

o oedolion yn **WRECSAM** yn cael trafferth bwyta digon o fwyd



IECHYD CORFFOROL POBL YN NE WRECSAM

20% o boblogaeth **WRECSAM** yn Ysmygu - mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (17.4%) a chyfartaledd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (17.6%) ac yn uwch na phobman arall yng Ngogledd Cymru

21.5% o'r boblogaeth oedolion yn **WRECSAM** yn yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (18.6) a chyfartaledd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (17.8)

80% o oedolion yn **WRECSAM** ddim yn bwyta'r 5 dogn o ffrwythau a llysiau a argymhellir

Mae canran y bobl ar draws Gogledd Cymru sy'n cynnal pwysau iach yn gostwng – mae 39% o oedolion **WRECSAM** dros eu pwysau neu'n ordew

68.8% o blant yn **WRECSAM** sy'n 5 oed yn cynnal pwysau iach. Mae hyn yn llai na'r cyfartaledd yng Nghymru (73.6) a chyfartaledd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (69.7)

Y disgwyliad oes ar gyfer Merched yn **WRECSAM** yw 81.8 oed, fodd bynnag, y disgwyliad oes iach yw 67.8 oed. Mae Merched yn **WRECSAM** mewn cyflwr iechyd da am 82.9% o'u bywydau


Y disgwyliad oes ar gyfer Dynion yn **WRECSAM** yw 78.3 oed, fodd bynnag, y disgwyliad oes iach yw 66.8 oed

Mae Dynion yn **WRECSAM** mewn cyflwr iechyd da am 85.3% o'u bywydau

93% o blant yn **WRECSAM** yn adrodd bod eu hiechyd yn dda / da iawn

18% yn adrodd bod ganddynt salwch hirdymor, ac;

6% yn adrodd bod ganddynt salwch hirdymor sy'n eu cyfyngu



Fodd bynnag....

75.4% o oedolion sydd o oedran gweithio mewn cyflwr iechyd da - sy'n is na'r cyfartaledd yng Nghymru (76%) a chyfartaledd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (78.7)%

O ran pobl sy'n hŷn na 65 oed, mae canran uwch o bobl mewn cyflwr iechyd da yn **WRECSAM** (57.4%) o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru (56.1%)

YN WRECSAM:

- 91.2% o blant 4 oed yn **WRECSAM** wedi derbyn pob un o'u brechlynnau.
- Mae 52.1% o bobl yn **WRECSAM** yn derbyn sgriniadau'r coluddyn, sy'n llawer is na'r targed o 60% ac yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru (55.7%)
- Mae 76.2% yn derbyn sgriniadau serfigol - sy'n uwch na'r targed o 70%
- Mae 79% yn derbyn sgriniadau Ymlediadau Aortig Abdomenol, sy'n is na'r targed cenedlaethol o 80%.
- 72% o oedolion yn **WRECSAM** ddim yn bodloni canllawiau gweithgarwch corfforol
- 31.2% o famau'n parhau i fwydo ar y fron ar ôl 10 diwrnod.



Y SBOTOLAU AR DDE WRECSAM

Ni wnaeth DE WRECSAM gyflawni targed brechlyn y ffliw yn 2018/19

Fodd bynnag, DE WRECSAM

- rhagori ar y targed o 95% ar gyfer y brechlyn 6 mewn 1 cyn 1 oed (95.4%);
- 2il MMR cyn 5 oed (95.4%)
- 2il MMR cyn 16 oed (96%)

THE IECHYD MEDDWL POBL YN NE WRECSAM

Y sgôr lles meddyliol cyfartalog yn WRECSAM yw 50.9 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 51.4 a chyfartaledd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o 52.3. Po uchaf yw'r sgôr y gorau yw'r iechyd meddwl.

Roedd 83.2% o oedolion sy'n gweithio yn **WRECSAM** yn fodlon â'u bywydau - mae hyn yn is na chyfartaledd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (83.3%) ond yn uwch na chyfartaledd Cymru (81.8%)

Roedd 86.5% o oedolion hŷn yn **WRECSAM** yn fodlon â'u bywydau, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (86.8%) ond yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (84.7%)

Mae cysylltiad cryf rhwng ymdeimlad o gymuned a pherthyn a newid ymddygiad iechyd. Mae 48.5% o oedolion yn **WRECSAM** yn nodi eu bod yn teimlo eu bod yn perthyn i'w cymuned. Mae hyn yn llai na'r cyfartaledd yng Nghymru (52.2%)



Gall arwahanrwydd cymdeithasol amharu ar annibyniaeth a chael effaith ar iechyd meddwl, fe allai hefyd arwain at broblemau iechyd corfforol os na ellir cael mynediad at wasanaethau megis Meddygon Teulu, deintyddion a chyfleoedd cymdeithasol a hamdden. Mae unigrwydd yn **NE WRECSAM** yn broblem sylweddol. Mae natur lled-wledig yr ardal yn golygu bod y mynediad at wasanaethau o safbwynt teithio a chludiant yn wael.

Er gwaethaf hyn, **WRECSAM** sydd â'r canran uchaf o oedolion yn nodi eu bod yn teimlo'n unig (19.8%) sy'n uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (15.6%)


Mae (12.9%) o bobl sy'n 65 oed neu'n hŷn yn byw ar eu pennau eu hunain yn **WRECSAM**. Mae hyn yn llai na'r cyfartaledd yng Nghymru (13.7%) a chyfartaledd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (14.9%)


Cyfradd hunanladdiad **WRECSAM** yw 10.4 fesul 100,000 o bobl, o'i gymharu â chyfartaledd o 9.2 yng Nghymru.

Mae dros hanner (51%) y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yn **WRECSAM** yn nodi eu bod yn teimlo'n rhan o'u cymuned leol, ac mae 50% yn nodi eu bod yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw.

0.94% o oedolion yn **NE WRECSAM** yn derbyn cymorth iechyd meddwl gan eu Meddyg Teulu.

% o oedolion (16 a hŷn) sy'n adrodd eu bod yn caelf triniaeth am eu hiechyd meddwl ar hyn o bryd





BYW Â CHYFLWR HIRDYMOR YN NE WRECSAM

WRECSAM nifer fawr o bobl sy'n 65 oed neu'n hŷn, gydag amcanestyniadau poblogaeth yn awgrymu twf sylweddol a pharhaus yn nifer y bobl hŷn.

Mae cynnydd yn nifer y bobl hŷn yn debygol o arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n profi problemau sy'n ymwneud ag oedran, megis, cyflyrau corfforol a synhwyrol cronig, dementia a chodymau, a fydd o bosibl yn cael effaith negyddol ar les cyffredinol pobl.

Amcangyfrifir bod 1,958 o bobl sy'n 65 oed neu'n hŷn, yn byw â dementia yn **WRECSAM**. Disgwylir i'r nifer hwn gynyddu i oddeutu 3,104 erbyn 2040.

Mae cyfraddau diweithdra'n uwch ymhlith pobl â chyflyrau iechyd yn **WRECSAM**, ac mae'r gyfradd hon yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru.

Mae 81 o bobl rhwng 18 a 64 oed â nam difrifol ar y golwg yn **WRECSAM**, 193 o bobl dros 65 oed.

Mae 186 o bobl rhwng 18 a 64 oed sy'n anabl yn gorfforol/synhwyraidd heb nam ar y golwg, a 616 dros 65 oed

21.7% o bobl o oedran gweithio yn **WRECSAM** gyda anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar waith dan y Ddeddf Gydraddoldeb.

0.65% o boblogaeth **DE WRECSAM** wedi'u rhagweld i fyw â dementia.





DE WRECSAM

4 problem ffordd o fyw uchaf sy'n cyfrannu at y 3 cyflwr cronig uchaf

20% o oedolion yn **WRECSAM** yn ysmygu

22% o oedolion yn **WRECSAM** yn yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir

72% o oedolion yn **WRECSAM** ddim yn bodloni canllawiau gweithgarwch corfforol

39% o oedolion yn **WRECSAM** o bwysau afiach

Y cyflyrau cronig mwyaf cyffredin yng DE WRECSAM yw:

17.45%
PWYSEDD GWAED UCHEL
(BIP - 16.94%; Cymru - 15.89%)

8.03%
ASTHMA
(BIP - 7.58%; Cymru - 7.43%)

7.43%
DIABETES
(BIP - 7.81%; Cymru - 7.77%)

CYFLWR CRONIG	DE WRECSAM (%)	BIP (%)	CYMRU (%)
Clefyd Coronaidd y Galon	3.65	3.79	3.61
Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint	2.59	2.71	2.38
Ffibrilio	2.55	2.57	2.43
Methiant y Galon	1.13	1.15	1.11
Canser	3.62	3.71	3.28
Strôc	2.08	2.17	2.17
Epilepsi	0.97	0.95	0.97
Osteoporosis	076	0.71	0.64



CYFRANOGIAD POBL GYDA GWASANAETHAU IECHYD A GOFAL YN NE WREXHAM

Yn Wrecsam...

- Mae derbyniadau i'r ysbyty sy'n ymwneud â chanser wedi parhau i ostwng
- Mae derbyniadau sy'n ymwneud â chlefyd cardiofasgwlaidd (1,628) yn is na chyfartaledd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (1,641) a chyfartaledd Cymru (1,695)
- Mae nifer y derbyniadau brys yn sgil cyflyrau resbiradol (1,692) yn uwch na chyfartaledd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (1,676) ond yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru (1,770)
- Mae cyfanswm y derbyniadau brys ar gyfer **WRECSAM** (12,450) yn uwch na chyfartaledd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (11,972) a'r cyfartaledd yng Nghymru (12,354)
- Er gwaethaf y boblogaeth sy'n heneiddio yn **WRECSAM**, mae cyfradd y toriadau i'r cluniau ymhlith y rhai sy'n 65 ac yn hŷn yn well yn Wrecsam o'i gymharu â Chymru (594.2 fesul 100,000 o'r boblogaeth)
- Yn **WRECSAM**, mae 16,825 o bobl yn darparu gofal anffurfiol i aelod o deulu neu ffrindiau.
- Roedd 690 o blant yn derbyn gofal a chymorth yn 2019 - yr 2il uchaf yng Ngogledd Cymru
- 58.6 fesul 100,000 o'r boblogaeth plant ar y gofrestr amddiffyn plant



9,596 Amcangyfrifir bod gan **WRECSAM** 9,596 o oedolion 65+ oed nad ydynt yn gallu rheoli o leiaf un gweithgarwch hunanofal. Credir y bydd y duedd hon yn cynyddu erbyn 2035, ac amcangyfrifir y bydd y cynnydd mwyaf yn Wrecsam a Sir y Fflint (13,830)

3,325 OEDOLYN

Yn **WRECSAM**, mae 3,325 o oedolion yn derbyn 8,814 o wasanaethau gofal cymdeithasol.

65+ OED

2,449 oedolyn yn 65 oed neu'n hŷn. Derbynnir 6,918 o wasanaethau gan oedolion dros 65 oed.

85+ OED

1,018 oedolyn yn 85 oed neu'n hŷn. Derbynnir 1,081 o wasanaethau gan oedolion dros 85 oed.

1,735 OEDOLYN

wedi derbyn cefnogaeth gan y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn 2018/19

70.34%

o'r oedolion a dderbyniodd gefnogaeth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn 2018/19 heb gysylltu â'r gwasanaeth eto am 6 mis

84.81 OED

Yr oedran cyfartalog ar gyfer oedolion a aeth i gartrefi preswyl yn 2019/20 oedd 84.81 oed

862.69 DIWRNOD

Treuliodd oedolion gyfartaledd o 862.69 diwrnod mewn gofal preswyl yn 2019/20.

2,295 ASESIADAU

Cwblhawyd 2,295 o asesiadau gofal a chymorth yn 2018/19

2,039 POBL

Arweiniodd 2,039 o'r rhain at gynllun gofal

135 OEDOLYN

oedolyn wedi defnyddio cartrefi gofal gyda nyrsio yn 2018/19

801 OEDOLYN

wedi defnyddio cartrefi gofal (heb nyrsio) yn 2018/19

849 OEDOLYN

wedi derbyn gofal cartref yn 2018/19

PROFIADAU POBL IECHYD A GWASANAETHAU GOFAL YN NE WREXHAM



Yn Wrecsam...

108 ASESIADAU


Cwblhawyd 108 o asesiadau gofal a chymorth ar gyfer gofalwyr anffurfiol yn 2018/19 yn **WRECSAM**.

12%

Yn 2020, roedd gan 12% o'r plant a oedd yn derbyn gofal a chefnogaeth yn **WRECSAM** anabledd

52
CEFNOGI

Arweiniodd 52 o'r rhain at gynllun cefnogaeth



18%

Yn 2020, roedd gan 18% o'r plant a oedd yn derbyn gofal broblemau iechyd meddwl

665
PLANT

Yn 2020, roedd 665 o blant yn derbyn gofal a chefnogaeth yn **WRECSAM**.

100%

Yn 2020, roedd 100% o'r plant a oedd yn derbyn gofal a chymorth wedi derbyn y gwiriadau gwyliadwriaeth iechyd diweddaraf



Proffiliau'r Ardal Leol: Rhestr o'r Ffynonellau Data

Disgrifiad o'r Data	Ffynhonnell y Data
YR ARDAL LEOL	
Maint y boblogaeth yn ôl Awdurdod Lleol	StatsCymru
Maint y boblogaeth yn ôl oedran	
Rhagamcaniadau o'r boblogaeth	Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ethnigrwydd	StatsCymru
Nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg	Arolwg Cenedlaethol Cymru
Nifer y bobl sy'n galw eu hunain yn LHD	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
Asedau cymunedol	Cynllun Tymor Canolig Integredig Gofal Sylfaenol
BYWYD YN YR ARDAL LEOL	
Nifer y bobl sy'n ddi-waith	StatsCymru
Nifer y plant sy'n byw mewn tlodi	Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd
Nifer y bobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd	Set Ddata Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol i Gymru
Nifer y bobl sydd heb wres canolog	Cyfrifiad 2011
Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru	Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru
Nifer yr oedolion sy'n llwgu	Prifysgol Sheffield, Map Ansicrwydd Bwyd
Nifer yr oedolion sy'n ei chael yn anodd bwyta digon o fwyd	
Nifer yr oedolion sy'n poeni am beidio â chael digon i'w fwyta	
Nifer y bobl sy'n teimlo bod eu cartrefi'n cefnogi eu lles	StatsCymru
% yr asesiadau tai sydd heb unrhyw beryglon categori un	Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru
Nifer yr aelwydydd sy'n anfwriadol ddigartref	StatsCymru
Nifer y bobl sy'n rhentu gan landlord cymdeithasol	Cyfrifiad 2011
Nifer yr aelwydydd sydd heb gar na fan	
Nifer yr aelwydydd sydd â phensiynwyr yn unig yn byw yno	

Disgrifiad o'r Data	Ffynhonnell y Data
IECHYD CORFFOROL POBL YN YR ARDAL LEOL	
Ysmygu mewn oedolion 16 oed a hŷn	Arolwg Cenedlaethol Cymru
% yr oedolion (16 oed a hŷn) sy'n dweud eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir	
Oedolion oedran gweithio sydd â phwysau iach	Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd
Oedolion sy'n bwyta pum dogn o ffrwythau neu lysiau bob dydd	StatsCymru
Gweithgarwch corfforol mewn oedolion 16 oed a hŷn	Arolwg Cenedlaethol Cymru
% y plant 4 oed, sydd wedi cael y brechlynnau y dylen nhw fod wedi eu cael	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Disgwyliad oes yn ôl rhyw	StatsCymru
Disgwyliad oes iach adeg geni, gwrywod a benywod	Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus Cymru
% y plant sy'n dweud eu bod yn iach	
Sgrinio Serfigol	Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru
Pobl sy'n manteisio ar wasanaethau Sgrinio Coluddion	
Gwasanaeth sgrinio Ymlediad Aortaidd yn yr Abdomen sy'n cael ei gynnig / ei dderbyn	
Faint sy'n cymryd y brechlyn MMR	Cynllun Tymor Canolig Integredig y Clwstwr
% sy'n bwydo ar y fron ar ddiwrnod 10	Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus Cymru
Oedolion oedran gweithio (16 i 64 oed) iach	Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru
Oedolion hŷn (65+ oed) iach	

Disgrifiad o'r Data	Ffynhonnell y Data
IECHYD MEDDWL POBL YN YR ARDAL LEOL	
Lles meddyliol ymhlith oedolion, cyfartaledd wedi'i safoni yn ôl oedran	Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru
Boddhad â bywyd ymhlith oedolion oedran gweithio a phobl hŷn	
% yr oedolion sy'n dweud eu bod yn teimlo'n unig	
Ymdeimlad o gymuned	Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd
% yr oedolion sy'n dweud eu bod yn teimlo'u bod yn perthyn i'w cymuned leol	StatsCymru
% y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n dweud eu bod yn teimlo'n rhan o'u cymuned leol	
% y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n dweud eu bod yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw	
Nifer y bobl dros 65 oed sy'n byw ar eu pen eu hunain	Cyfrifiad 2011
Nifer y cleifion sydd ar gofrestr clefydau QOF ar gyfer iechyd meddwl	Cronfa Ddata QOF
Derbyniadau i gyfleusterau iechyd meddwl gan y bwrdd iechyd lleol	StatsCymru
Marwolaethau o hunanladdiad, EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth, pob person 10 oed a hŷn	Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru

Disgrifiad o'r Data	Ffynhonnell y Data
BYW GYDA CHYFLWR HIRDYMOR YN YR ARDAL LEOL	
Nifer y bobl sy'n cael trafferth gyda gweithgareddau bywyd beunyddiol	StatsCymru
Bwlch mewn cyflogaeth ar gyfer pobl sydd â chyflwr iechyd hirdymor	Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru
Rhagfynegiad o nifer y bobl dros 65 oed sy'n byw gyda dementia	Set Ddata Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol i Gymru
Nifer y cleifion ar gofrestr clefydau QOF ar gyfer dementia	Cronfa Ddata QOF
% o bobl oedran gweithio sydd ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio yn ôl y Ddeddf Cydraddoldeb	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
Nifer y bobl sydd ag anabledd corfforol / synhwyraidd ond heb nam ar eu golwg	StatsCymru
Nifer y bobl sydd â nam difrifol ar eu golwg	Set Ddata Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol i Gymru
% y bobl sydd â salwch cyfyngus hirdymor	
Canran y cleifion sydd wedi eu cofrestru â chyflwr cronig	Cronfa Ddata QOF
FAINT MAE POBL YN YMWNEUD Â GWASANAETHAU IECHYD A GOFAL YN YR ARDAL LEOL	
Derbyniadau canser, EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth	Mapiau Iechyd Cymru
Derbyniadau clefydau cardiofasgwlaidd, EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth	
Derbyniadau Brys Anadlol, EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth	
Derbyniadau Brys, hyd arhosiad cymedrig (dyddiau), pob person	
Torri cluniau ymhlith pobl hŷn (65 oed a hŷn)	Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd
Derbyniadau i'r ysbyty oherwydd codymau	Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru
Darparu gofal di-dâl	Cyfrifiad 2011
% y bobl sy'n fodlon â'u gallu i gyrraedd/cael mynediad at y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw	StatsCymru
Nifer y plant sy'n derbyn gofal a chymorth	
% y plant sy'n derbyn gofal a chymorth sydd ag anabledd	Set Ddata Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol i Gymru
% y plant sy'n derbyn gofal a chymorth sydd â phroblemau iechyd meddwl	
% y plant sy'n derbyn gofal a chymorth sydd â gwiriadau cyfredol ar gadw gwyliadwriaeth ar iechyd plant	
Nifer yr asesiadau o anghenion cymorth ar gyfer gofalwyr a wnaed yn ystod y flwyddyn	
Nifer yr asesiadau o anghenion cymorth ar gyfer gofalwyr a wnaed yn ystod y flwyddyn a arweiniodd at gynllun cymorth	
Nifer yr oedolion sy'n derbyn gwasanaethau, pob person yn ôl grŵp oedran	StatsCymru
Nifer yr oedolion sy'n derbyn cymorth gan y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor, Cymorth yn ystod y flwyddyn	Set Ddata Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol i Gymru
Nifer y bobl dros 65 oed sydd methu â chyflawni o leiaf un gweithgaredd hunanofal	StatsCymru

Disgrifiad o'r Data	Ffynhonnell y Data
FAINT MAE POBL YN YMWNEUD Â GWASANAETHAU IECHYD A GOFAL YN YR ARDAL LEOL (PARHAU)	
Nifer yr asesiadau o anghenion gofal a chymorth a wnaed yn ystod y flwyddyn	Set Ddata Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol i Gymru
Nifer yr asesiadau o anghenion gofal a chymorth a wnaed yn ystod y flwyddyn a arweiniodd at gynllun cymorth	
Nifer y gwasanaethau a dderbyniwyd gan oedolion yn ystod y flwyddyn	
Nifer yr oedolion a gafodd eu cefnogi yn ystod y flwyddyn	
Nifer y gwasanaethau cartrefi gofal i oedolion (gyda nyrsio) a dderbyniwyd gan oedolion dros 65 oed yn ystod y flwyddyn	
Nifer y gwasanaethau cartrefi gofal i oedolion (heb nyrsio) a dderbyniwyd gan oedolion dros 65 oed yn ystod y flwyddyn	
Nifer y gwasanaethau gofal cartref a dderbyniwyd gan oedolion dros 65 oed yn ystod y flwyddyn	
PROFIAD POBL O WASANAETHAU IECHYD A GOFAL YN YR ARDAL LEOL	
Adborth ansoddol ar brofiadau pobl o wasanaethau gofal cymdeithasol	Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol



Os hoffech ragor o wybodaeth am y Proffil Pen hwn, anfonwch
e-bost at **Jo Flannery**, Uwch Reolwr Cynllunio Iechyd,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
E-bost: jo.flannery@wales.nhs.uk